# Ysgol Parc y Tywyn



'Nid da lle gellir gwell'

## Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr i Rieni

## 2025-26

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Nid da lle gellir gwell

# Y Corff Llywodraethol

Mae'r Corff Llywodraethol a'r Pennaeth yn rhannu cyfrifoldeb am reolaeth strategol yr ysgol, gan weithredu o fewn y fframwaith a osodwyd gan ddeddfwriaeth genedlaethol a chan bolisïau'r Awdurdod Lleol (ALl).

Er mai'r ALl yw cyflogwr y staff, mae gan y Corff Llywodraethol a'r Pennaeth gyfrifoldebau ar wahân a phenodol ar gyfer dethol a rheoli staff. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw rheolaeth fewnol yr ysgol.

***GOVERNING BODY OF YSGOL PARC Y TYWYN NO. 108***

| Math o Lywodraethwr / Type of Governor | Enw / Name | Terfyn y Tymor Swydd / End of Term of Office |
|---|---|---|
| Awdurdod Lleol / Local Authority | Cllr John James | 31-08-2028 |
| Awdurdod Lleol / Local Authority | Cllr Huw B. Shepardson | 31-08-2028 |
| Awdurdod Lleol / Local Authority | Mrs Sharon L. Thomas | 30-10-2030 |
| Pennaeth / Headteacher | Mrs Angharad Williams | N/A |
| Llywodraethwr Cymunedol / Community Governor | Mrs Karen Morris | 17-11-2029 |
| Llywodraethwr Cymunedol / Community Governor | Mrs Nest Griffiths | 19-11-2028 |
| Llywodraethwr Cymunedol / Community Governor | Mrs S. Denman | 20-05-2028 |
| Llywodraethwr Cymunedol / Community Governor | Mrs Tania Nicholson (Vice Chair) | 01-09-2030 |
| Rhiant Lywodraethwr / Parent Governor | Mr Mathew Davies (Chair of Governors) | 23-10-2027 |
| Rhiant Lywodraethwr / Parent Governor | Mrs Samantha Lewis | 12-06-2029 |
| Rhiant Lywodraethwr / Parent Governor | GWAG | / |
| Rhiant Lywodraethwr / Parent Governor | Mrs Rhiannon Young | 14-10-2029 |
| Staff Lywodraethwr / Staff Governor | Mrs Sian Elias Morris | 03-11-2029 |
| Athro Lywodraethwr / Teacher Governor | Miss Elinor Thomas | 10-11-2027 |

***Clerc y Corff Llywodraethol:***

Mrs A. Picton, c/o Ysgol Parc y Tywyn, Heol y Bardd, Burry Port. Carmarthenshire.
SA16 0NL
Phone: 01554 832101
E-mail: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

# Llythyr y Cadeirydd

Annwyl Riant/Gwarchodwr,

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol eleni i rieni a gofalwyr. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth allweddol am yr ysgol, ynghyd â'r diweddariadau statudol sy'n ofynnol bob blwyddyn.

Ar ran y Corff Llywodraethol, hoffwn ddiolch i'n tîm arwain, ein hathrawon, staff cymorth, rhieni a gofalwyr, ac yn bwysicaf oll, ein dysgwyr, am eu gwaith caled, eu hymrwymiad a'u cefnogaeth barhaus drwy gydol y flwyddyn.

Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i'n gweledigaeth a'n gwerthoedd, sy'n parhau i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad, lles a chyflawniad ein dysgwyr. Mae'r ystod eang o gyfleoedd sydd ar gael i'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi eu cynnydd a'u helpu i ddatblygu'n ddinasyddion hyderus, galluog a chyfrifol. Mae'r flwyddyn hon wedi darparu nifer o brofiadau cyfoethog, o ymweliadau â'r llyfrgell leol a'r RNLI i ymweliadau addysgol â Phen y Fan a Llain. Mae'r dysgwyr hefyd wedi datblygu sgiliau newydd drwy weithgareddau megis bowlio ar lawnt yn y clwb bowlio lleol, ac rydym yn arbennig o falch fod yr ysgol wedi ennill Tlws Moira Thomas mewn cystadleuaeth yn erbyn ysgolion lleol eraill. Da iawn i bawb a gymerodd ran.

Rydym hefyd wedi dathlu nifer o lwyddiannau chwaraeon, ynghyd â chyflawniadau'r disgyblion yn yr Eisteddfodau lleol ac Urdd. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cynrychioli'r ysgol mor gadarnhaol ac wedi cyfrannu at ei llwyddiant parhaus. Mae hefyd wedi bod yn galonogol gweld cymaint o gyfranogiad yn yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sydd ar gael, gan gynnwys gwnio, garddio a Jitsu. Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau a diddordebau newydd, magu hyder, meithrin cyfeillgarwch a chreu atgofion parhaol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae'n bleser gennyf adrodd bod Cwricwlwm i Gymru yn parhau i gael ei wreiddio'n gynyddol ar draws yr ysgol, gan wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu a darparu profiadau cyfoethocach a mwy ysgogol i bob disgybl. Mae wedi bod yn fraint ymweld â'r ysgol ar nifer o achlysuron, siarad â dysgwyr ac aelodau staff, a gweld y dysgu hwn ar waith. Mae hefyd wedi bod yn galonogol gweld datblygiad parhaus yr ysgol o ran dulliau adferol a'r cynnydd cryf a wnaed yn erbyn ei blaenoriaethau gwella. Mae'r cyflawniadau hyn yn adlewyrchu ymroddiad ac ymrwymiad y staff, y dysgwyr a chymuned ehangach yr ysgol.

Gobeithiaf y bydd yr adroddiad hwn yn werthfawr i chi. Yn olaf, hoffwn ddiolch unwaith eto i'r holl rieni a gofalwyr am eich cefnogaeth a'ch partneriaeth barhaus. Drwy weithio gyda'n gilydd, rydym yn parhau i ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl i'n dysgwyr ffynnu, llwyddo a chyrraedd eu llawn botensial. Mwynhewch yr haf.

Yr Eiddoch,

*Mathew Davies*

**Cadeirydd y Corff llywodraethol**

Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr gyda Rhieni

Mae Adran 94 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gwneud newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol blaenorol oedd yn ymwneud â Chyfarfodydd Blynyddol y Rhieni/Llywodraethwyr. Mae'n darparu trefniadau newydd lle gall rhieni ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol. Fodd bynnag, bydd angen i'r rhieni fodloni pedwar (4) gofyniad statudol wrth alw cyfarfod sef: -

- rhaid i rieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu rieni 30 o'r disgyblion cofrestredig (pa un bynnag sydd isaf) arwyddo deiseb yn gofyn am gyfarfod;
- rhaid mai diben y cyfarfod yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol;
- y nifer fwyaf o gyfarfodydd y gall rhieni ofyn amdanynt o fewn unrhyw flwyddyn ysgol yw tri (3); (iv) rhaid bod yna ddigon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod.

At hynny: -

(a) rhaid cynnal y cyfarfodydd cyn diwedd cyfnod o 25 niwrnod;

(b) mae'r cyfnod o 25 niwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y ddeiseb, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol;

(c) os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod o 25 niwrnod yn dechrau tan y diwrnod ar ôl cynnal y cyfarfod arall;

(ch) rhaid bod digon o ddyddiau ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod cyn diwedd y cyfnod o 25 niwrnod;

(d) bydd cyfarfodydd yn agored i holl rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw un arall a wahoddir gan y corff llywodraethol;

(dd) mae'n rhaid i hysbysiad y cyfarfodydd i'r rhieni gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â'r mater neu faterion i'w trafod.

Gweler mwy o wybodaeth yma - Cyfarfod â rhieni: canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu | LLYW.CYMRU

Trefniadau etholiad nesaf y Corff Llywodraethol

Mi fydd yr Awdurdod Addysg a'r ysgol yn hysbysu rhieni / gwarcheidwaid am drefniadau unrhyw gyfleoedd i fod yn rhan o'r Corff Llywodraethol a threfniadau etholiadau. Yn gywir, Mathew Davies Chair of Governing Body

Y mae copi o'r adroddiad hwn ar gael yn Adran y Llywodraethwyr ar safle we'r ysgol - https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/

Clerc y Llywodraethwyr – Mrs Angharad Picton(Clerc i'r Llywodraethwyr), Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, Heol y Bardd, Porth Tywyn, Sir Gaerfyrddin, SA16 0NL.
Cadeirydd y Llywodraethwyr – Mr Mathew Davies, Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol), Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, Heol y Bardd, Porth Tywyn, Sir Gaerfyrddin, SA16 0NL.
DaviesM1926@hwbcymru.net

# Neges o'r Pennaeth



Annwyl Riant/Gwarchodwr,

Ar ran ein tîm cyfan yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi gyd am eich cefnogaeth barhaus i'n hysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2025–2026. Mae Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn parhau i fod yn ysgol hapus, ofalgar a llwyddiannus, a dim ond drwy gydweithio'n agos y gallwn gyflawni hynny. Mae rhieni, staff, disgyblion a llywodraethwyr oll yn chwarae rhan allweddol yn llwyddiant ein hysgol.
Unwaith eto eleni, mae proffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled ein staff wedi bod yn rhagorol ac yn glod i'r ysgol gyfan. Mae'r gefnogaeth gyson a gwerthfawr a gewch chi, ein teuluoedd, wedi bod yn allweddol drwy gydol y flwyddyn, ac rydym yn ddiolchgar iawn am hynny.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus arall, gyda'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, profiadau a digwyddiadau cyfoethog. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein darpariaeth addysgol yn unol â gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru, gan sicrhau cyfleoedd dysgu ystyrlon ac ysbrydoledig i'n holl ddisgyblion. Mae ein plant wedi gwneud cynnydd da ac wedi dangos ymrwymiad, creadigrwydd a brwdfrydedd yn eu dysgu.

Mae wedi bod yn fraint cael arwain Ysgol Parc y Tywyn ers mis Ionawr 2023. Mae gennym dîm arbennig o ymroddedig a disgyblion talentog sy'n cyfrannu bob dydd at wneud ein hysgol yn gymuned ddysgu ragorol. Trwy brosesau hunanarfarnu cadarn, ynghyd â gweithgareddau monitro rheolaidd, rydym yn parhau i sicrhau bod safon uchel o addysgu a dysgu yn sail i bopeth a wnawn.

Edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth barhaus wrth inni barhau i helpu ein disgyblion i gyflawni eu potensial llawn. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i baratoi ein plant ar gyfer byd sy'n newid yn gyflym, gan feithrin y sgiliau, yr wybodaeth a'r gwerthoedd sydd eu hangen arnynt i ffynnu a llwyddo yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

*Mrs Angharad Williams*

**(Pennaeth)**

# Ein Hysgol



Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Parc y Tywyn yn ysgol addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r plant yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg wrth ddod i mewn i'r Feithrinfa. Cymraeg yw prif iaith yr addysgu trwy gydol y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, addysgir Saesneg mewn gwersi o flwyddyn 3 ymlaen ac mae pwyslais ar ddwyieithrwydd yn sicrhau bod disgyblion yn cyflawni safonau uchel yn y ddwy iaith erbyn diwedd (Blwyddyn 6).




Mae'r Pennaeth yn cyfarfod â darpar rieni cyn i'w plant ddechrau ac yn egluro manteision dwyieithrwydd. Mae’r neges hon yn cael ei hailadrodd gan yr holl staff addysgu mewn cyfarfodydd rhieni ac ati.

Caiff rhieni eu cynorthwyo a'u cefnogi gan athrawon wrth helpu gyda thasgau gwaith cartref. Mae gan bob dosbarth waith cartref. Gosodir gwaith cartref bob pythefnos (Llythrennedd/Rhifedd/Sillafu) i ddisgyblion o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6.



Ysgol Y Strade yw ysgol fwydo uwchradd Ysgol Parc y Tywyn. Mae Ysgol Y Strade yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Trefnir gweithgareddau ar y cyd trwy gydol Blynyddoedd 5 a 6 a chynhelir nosweithiau rhieni fel bod y trosglwyddo mor llyfn â phosibl.

Mae'r disgyblion yn dilyn cwricwlwm thematig. Caiff themâu eu trefnu a'u cynllunio'n ofalus ar gyfer pob ystod oedran gan sicrhau ymdriniaeth gyflawn o'r cwricwlwm.




Ffurfir grwpiau ymyrraeth ar sail y profion a weinyddir ac Asesiadau Athrawon. Addysgir disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn meysydd penodol mewn grwpiau. Defnyddir strategaethau ymyrraeth megis Therapi Lego, Sylw i Awtistiaeth a 'CHATT'. Caiff cynnydd pob dysgwr ei olrhain yn rheolaidd ac yn ofalus gan ddefnyddio Traciwr a systemau olrhain yr ysgol.



Mae llais y disgybl yn bwysig yn ein hysgol ac anogir disgyblion i gasglu gwybodaeth a gweithredu ar eu syniadau trwy’r Cynghorau. Mae gan yr ysgol wahanol gynghorau sy’n cyfarfod yn rheolaidd i hyrwyddo llais y disgybl a chefnogi’r ysgol i gyflawni ei nodau:

- Cyngor ECO yr Ysgol
- Cyngor Ysgol
- Cyngor Siarter Cymru ‘Criw Cymry Cwl’
- Hyrwyddwyr Digidol
- Llysgenhadon Chwaraeon





Mae ein hymdrech i hybu’r Gymraeg yn yr ysgol yn parhau i annog disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i’r dosbarth yn ogystal â thu mewn. Mae POD 1 a 2 yn defnyddio’r pentref chwarae rôl er mwyn hybu’r Gymraeg a dysgu patrymau iaith mewn modd chwarae strwythuredig. Gweithredir ‘Cynllun Clonc’ drwy’r ysgol er mwyn gwella’r defnydd o’r Gymraeg.

Rydym yn parhau ar ein taith i fod yn Ysgol Adferol ac wedi hyfforddi aelodau Blwyddyn 4 i fod yn Gyfryngwyr Cyfoedion neu 'BYDIS' ar yr iard. Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant Dull Adferol ac yn defnyddio ymchwiliad adferol wrth drafod digwyddiadau gyda phob plentyn.

Rydym yn defnyddio sesiynau amser cylch i drafod emosiynau a lles ein disgyblion.

Cliciwch ar y ddolen isod i weld ein prosbectws Ysgol.
https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/parc-y-tywyn-school/UploadedDocument/39eb4815-351a-4c5c-b4a4-c998d3a75bdd/prosbectws-pyt-2025-2026.pdf





# Ysgolion Iach

Yn Ysgol Gynradd Gymraeg Parc y Tywyn rydym yn ymfalchïo yn ein statws Ysgol Iach ac yn falch o fod wedi cyflawni pob un o bum cam cynllun Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin ac wedi ennill Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach Rhwydwaith Cymru ym mis Mawrth 2023. Mae’r ysgol yn sicrhau ei bod yn gweithredu mentrau lles ar y lefel uchaf un ac mae 7 prif faes i’r wobr:



- Bwyd a ffitrwydd (maeth a gweithgaredd corfforol)
- Iechyd a lles meddyliol ac emosiynol, gan gynnwys lles staff
- Datblygiad personol a pherthnasoedd, gan gynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd
- Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, ysmygu, a chyffuriau (cyfreithlon, anghyfreithlon a phresgripsiwn).
- Yr amgylchedd, gan gynnwys mentrau eco a gwella'r ysgol a'r amgylchedd ehangach
- Diogelwch, gan gynnwys amrywiaeth o bynciau megis amddiffyn plant, diogelwch yn yr haul, diogelwch ar y rhyngrwyd, a chymorth cyntaf
- Hylendid gan gynnwys ar draws ysgolion a lleoliadau nad ydynt yn ysgolion



**Cinio Ysgol am Ddim i holl Blant Ysgol Gynradd:**

O ganlyniad i'r pwysau cynyddol ar deuluoedd o ran costau bwyd, cyflwynwyd y cynllun prydau ysgol am ddim ym mis Medi 2022 ac mae pob disgybl yn derbyn prydau ysgol am ddim.

**Pecynnau Bwyd Iach:**

Mae croeso i ddisgyblion sy'n dymuno dod â phecyn bwyd i'r ysgol. Fel Ysgol sy'n hybu iechyd rydym yn annog rhieni/gwarchodwyr i baratoi Pecyn Bwyd Iach i'w plant fel bod negeseuon cyson yn cael eu hailadrodd mewn perthynas â Bwyta ac Yfed yn Iach. Nid ydym fel Ysgol yn caniatáu diodydd pefriog neu ddiodydd egni o fewn pecynnau bwyd ac yn gwrthod caniatáu i rieni gynnwys melysion a danteithion melys. Rydym yn ysgol ddi-gnau, sicrhewch nad oes unrhywbeth â cnau ym mhecyn bwyd eich plentyn.

**Yfed**

Dŵr a Llaeth yw'r unig ddiod y byddwn yn ei ddarparu yn yr Ysgol er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion. Rydym yn gweithredu'r Ymgyrch Llaeth am ddim i Ddisgyblion y Dysgu Sylfaen ac yn gweithredu menter 'Dŵr ar ddesgiau' sy'n galluogi disgyblion i yfed dŵr yn ôl yr angen. Mae dŵr ffres hefyd ar gael i ddisgyblion ei yfed gyda'u cinio yn y neuadd ginio.

**Cydweithio**

Gyda chefnogaeth y staff a'r rhieni gallwn ymdrechu i sicrhau bod y plant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at fyw bywyd iach. Wedi'r cyfan – rydyn ni i gyd yn rhannu'r un nod – i feithrin ein plant i ddod yn oedolion iach, heini a hapus ar gyfer y dyfodol!

Mae ein gwefan yn manylu ar ein hymroddiad i hyrwyddo bod yn ysgol iach ac yn cynnig cefnogaeth i rieni ym mhob un o'r 7 maes.
https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/ysgol-iach-healthy-school/

# Darpariaeth Toiledau

Mae toiledau ym mhob un o'r chwe dosbarth Dysgu Sylfaen ar y llawr gwaelod a Blwyddyn 3 a 4 ar y llawr cyntaf. Ar y llawr cyntaf, mae toiledau Cyfnod Allweddol 2 wedi'u lleoli'n ganolog. Oherwydd y pandemig, mae pob grŵp blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi cael dau doiled yr un ac mae disgyblion yn dilyn y system un ffordd. Darperir dŵr poeth, sebon hylif a hylif diheintio dwylo ym mhob toiled. Mae rholiau toiled yn cael eu newid yn ddyddiol a'u glanhau i safon uchel bob dydd. Gosodir sychwyr dwylo drwyddi draw.



***Mae Polisi Toiledau ein hysgol yn nodi...***

*Mae'r ysgol yn cydnabod bod cyfleusterau toiled a gynhelir yn dda, lle mae dysgwyr a staff yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, ac sydd ar gael iddynt trwy gydol y diwrnod ysgol, yn hanfodol ar gyfer iechyd, lles a dysgu. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn parchu ein dysgwyr a'n staff ac rydym am iddynt allu manteisio ar ddarpariaeth dda ac arfer da.*

***Nod ein polisi yw:***

*Galluogi disgyblion, staff ac ymwelwyr i ddefnyddio'r cyfleusterau toiledau drwy gydol y dydd er mwyn hybu iechyd, lles a chyfleoedd dysgu pob dysgwr.*
*Darparu cyfleusterau toiled o ansawdd da ar draws yr ysgol gyfan.*

# Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

Ein dymuniad yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yw cynnal hinsawdd sy'n hybu agwedd gadarnhaol tuag at ymddygiad a disgyblaeth uchel yn yr ysgol. Ein bwriad yw datblygu ymwybyddiaeth o hunanddisgyblaeth, cyfrifoldeb a pharch tuag at ein disgyblion. Gwobrwyir gwaith da ac ymddygiad da drwy roi pwyntiau dojo, tystysgrifau ac Amser Aur.

**Mae rheolau ein hysgol yn cysylltu â'n gweledigaeth a'n gwerthoedd.**

**Cymreictod : Welshness**

**Parch: Respect**

**Dyfalbarhau : Perseverance**

**Cyfrifoldeb : Responsibility**




**Rydym yn defnyddio ap o'r enw Class Dojo i wobrwyo disgyblion am ddilyn y rheolau.**






**Rydym hefyd yn cynnal gwasanaeth wythnosol lle mae disgyblion yn derbyn tystysgrif am fod yn Seren yr Wythnos.**

# Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

**Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, ymfalchiwn yn y ffaith ein bod yn meddu ar weledigaeth ar gyfer ein disgyblion sy'n sicrhau'r addysg orau oll i bob dysgwr gan eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial.**

**"Ein gweledigaeth yw darparu profiadau pwrpasol sy'n herio pawb i lwyddo"**

**Rydym am gyflawni hyn drwy:**


**Annog Annibynniaeth : Encouraging Independence**

**Bachu Brwdfrydedd : Capturing Enthusiasm**

**Cyfoethogi Creadigrwydd : Enriching Creativity**

**Rydym yn credu mewn, ac yn byw wrth arwyddair ein hysgol: NID DA LLE GELLIR GWELL**

**Mae ein gweledigaeth ar gyfer addysg yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn yn seiliedig ar y 4 diben craidd y mae ein disgyblion yn eu datblygu yn ystod eu cyfnod gyda ni. Rydym yn sicrhau bod ein disgyblion yn:**




**Gweler ein deg gwerth ysgol isod:**

- **Hapusrwydd : Happiness**
- **Parch : Respect**
- **Cymreictod : Promoting Welsh Language**
- **Dyfalbarhau : Persevere**
- **Cyfrifoldeb : Responsibility**
- **Caredigrwydd : Caring**
- **Chwilfrydig : Curious**
- **Mentrus: Enterprising**
- **Cynhwysol: Inclusive**
- **Cydweithio: Collaboration**



# Gwella Ysgolion







Yn Ysgol Parc y Tywyn, mae diogelwch, lles a dysgu'r plant yn flaengar wrth wneud penderfyniadau. Mae pob aelod o staff a llywodraethwyr i gyd yn ymwneud ag o leiaf un agwedd o fywyd yr ysgol, gan weithio fel tîm cryf i wella a chodi safonau. Mae llais y disgybl, trwy'r Cyngor Ysgol, ac ymgynghori â rhieni trwy gyfarfodydd ac arolygon, yn golygu bod cymuned yr ysgol gyfan yn rhan o'r broses ymgynghori a gwneud penderfyniadau. Mae staff yn yr ysgol yn gweithio gyda phob agwedd o gymuned yr ysgol i nodi blaenoriaethau, cynllunio a gweithredu datblygiadau ar gyfer y rhain ac i fonitro effaith a deilliannau yn agos. Mae'r Corff Llywodraethol a'r Ymgynghorydd Cefnogi Addysg yn monitro blaenoriaethau gwella'r ysgol trwy ymweliadau rheolaidd â'r ysgol ar gyfer cyfarfodydd a theithiau dysgu; hefyd yn treulio amser yn craffu ar ddogfennaeth ac yn sicrhau bod y Pennaeth a'r staff yn cael eu harfarnu'n rheolaidd ac yn drylwyr. At ei gilydd, mae ethos tîm Ysgol Parc y Tywyn yn allweddol i ddysgu llwyddiannus ein holl blant.

# Beth ydym yn ceisio ei wella?

O fewn yr ysgol rydym yn parhau i nodi ffyrdd o wella ein ffordd o addysgu a dysgu. Mae hyn o ganlyniad i werthuso a monitro'r hyn sy'n digwydd a pha effaith mae hyn yn cael. Yn ystod blwyddyn academaidd 25/26 ein blaenoriaethau ar gyfer gwella oedd:

https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/parc-y-tywyn-school/UploadedDocument/acb6136e-bcb3-41a9-a32f-a4289c546380/crynodeb-o-blaenoriaethau-2025-2026.pdf








# Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rydym yma i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol drwy hyrwyddo cyflawniad a llesiant i bawb.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2021 yn gyfraith sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n disodli'r system flaenorol o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) gyda dull symlach ac yn fwy cyson. O dan y Ddeddf, bydd gan bob dysgwr ag ADY un Cynllun Datblygu Unigol (CDU) wedi'i deilwra i'w hanghenion, a fydd yn aros gyda nhw drwy gydol eu haddysg. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod dysgwyr a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio'r cymorth, gyda phwyslais ar adnabod anghenion yn gynnar a chynnig cefnogaeth berson-ganolog mewn pryd. Nod y ddeddfwriaeth hon yw creu system addysg decach a mwy cynhwysol lle gall pob dysgwr lwyddo.

Ein bwriad yw rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu i'w lawn botensial, gan gofio anghenion a gallu'r unigolyn. I'r mwyafrif o ddisgyblion, mae'r anghenion hynny'n cael eu diwallu yn y dosbarth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen cymorth ychwanegol ar nifer fach o blant. Credwn fod adnabyddiaeth gynnar ac ymyrraeth briodol yn gwella disgwyliadau plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ein nod yw creu amgylchedd ysgol sy'n meithrin anogaeth, derbyniad, parch a sensitifrwydd fel y gall pob plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol brofi llwyddiant yn unol â'u cyfyngiadau unigol eu hunain. Mae gennym nifer o strategaethau cymorth y gellir eu cynllunio i ddiwallu anghenion plentyn unigol, gan gynnwys anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal. Os bydd angen, byddwn yn ceisio cefnogaeth broffesiynol gan asiantaethau allanol er mwyn diwallu anghenion y plentyn yn llawn.

Mae mwy o wybodaeth am ADY ar ein gwefan:
https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/adyaln/



# Cysylltiadau Cymunedol




Mae'r corff llywodraethu yn annog rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol i gysylltu â'r ysgol. Mae busnesau lleol yn cefnogi'r ysgol gyda chodi arian ac yn cefnogi dysgu disgyblion trwy ganiatáu i ddisgyblion ymweld â'r sefydliad.

Mae Swyddog Heddlu Cymunedol yr ysgol yn cynnal ystod eang o weithdai i ddisgyblion ar 'ddiogelwch rhyngrwyd', 'cadw'n ddiogel' a 'chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol' a daw i'r ysgol yn dymhorol neu os bod achos yn codi.

Mae Nyrs yr Ysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i addysgu'r disgyblion am Hylendid Personol a Bwyta'n Iach yn ogystal ag archwilio clyw, golwg a dannedd y disgyblion. Mae ein hysgol hefyd yn cefnogi nifer o raglenni iechyd megis y Rhaglen Mesur Plentyndod lle mae Nyrs Ysgol yn mesur taldra a phwysau disgyblion, a'r rhaglen imiwneiddio rhag y ffliw lle gall disgyblion gael mynediad i'r brechlyn ffliw a weinyddir gan Nyrsys ysgol.
















# Ystadegau Presenoldeb Awdurdodedig ac Anawdurdodedig

Roedd presenoldeb ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-26 yn 93.23%  a oedd yn foddhaol.

Bydd unrhyw blentyn sydd â chyfradd presenoldeb o dan 90% yn cael ei fonitro gan yr ysgol, ac unrhyw blentyn sydd â chyfradd presenoldeb o dan 85% yn cael ei gyfeirio at Swyddog Lles Addysg y Sir.

Os yw eich plentyn yn absennol, a fyddech cystal â chysylltu â'r ysgol drwy ffonio neu drwy e-bost. Os na fyddwn yn cael gwybod am absenoldeb eich plentyn, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig.

Os ydych yn dymuno cymryd eich plentyn allan o'r ysgol am wyliau mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen gais gwyliau, ni fydd gwyliau yn cael eu awdurdodi.

Mae'r ystadegau canlynol yn dangos nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig fel canran o'r cyfanswm posibl yn y tymor.

| TYMOR | PRESENOLDEB Y TYMOR | AWDURDODEDIG | ANAWDURDODEDIG |
|---|---|---|---|
| HYDREF 2025 | 93.24% | 3.08% | 3.69% |
| GWANWYN 2026 | 94.37% | 2.81% | 2.82% |
| HAF 2026 | 92.3% | 3.3% | 4.4% |

Cais: Mae nifer sylweddol o blant bellach yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer dechrau'r ysgol. Mae hyn nid yn unig yn eu rhoi dan anfantais ond hefyd yn tarfu ar ddysgu eraill. Os gwelwch yn dda, gwnewch bob ymdrech i sicrhau bod eich plant yn cyrraedd ar amser gan fod hyn yn eu helpu i ddatblygu arferion a fydd o fudd iddynt, nid yn unig nawr, ond yn y dyfodol.

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol a gall colli ysgol gael effaith sylweddol ar gyflawniad dros gyfnod o flwyddyn fel y dangosir isod:

# MAE POB DIWRNOD YN CYFRI | EVERY DAY COUNTS

**Mae pob diwrnod yn cyfrif – mae'n dangos i'ch plentyn fod dysgu'n bwysig!**
**Attendance isn't just about showing up — it's about showing your child that learning matters!**

| 175 DIWRNOD O DDIM YSGOL Y FLWYDDYN<br>175 NON-SCHOOL DAYS A YEAR | 190 DIWRNOD O YSGOL Y FLWYDDYN<br>190 SCHOOL DAYS A YEAR |
|---|---|

A wyddoch chi? // Mae cymryd pythefnos o wyliau yn ystod y tymor yn golygu mai'r presenoldeb uchaf y gall eich plentyn ei gyflawni yw 94.5%.

A two-week holiday taken during term time means the highest attendance your child can achieve is 94.5%.

| Presenoldeb<br>Attendance % | Diwrnodau i Ffwrdd<br>Days Off | Oriau Dysgu a Gollwyd<br>Hours of Learning Lost | Statws<br>Status |
|---|---|---|---|
| 100% | 0 diwrnod<br>0 days | 0 awr<br>0 hours | RHAGOROL<br>EXCELLENT |
| 98% | 4 diwrnod<br>4 days | 20 awr<br>20 hours | DA IAWN<br>VERY GOOD |
| 96% | 8 diwrnod<br>8 days | 40 awr<br>40 hours | DA<br>GOOD |
| 95% | 10 diwrnod<br>10 days | 50 awr<br>50 hours | DA<br>GOOD |
| 94% | 12 diwrnod<br>(Hanner Tymor)<br>12 days<br>(Half Term) | 60 awr<br>60 hours | ACHOS PRYDER<br>CAUSE FOR CONCERN |
| 90% | 19 diwrnod<br>(Tua 1 Mis)<br>19 days<br>(Approx. 1 Month) | 95 awr<br>95 hours | PRYDER SYLWEDDOL<br>SIGNIFICANT CONCERN |
| 80% neu is<br>or lower | 38 diwrnod<br>(Tua 2 Fis)<br>38 days<br>(Approx. 2 Months) | 190 awr<br>190 hours | PRYDER DIFRIFOL<br>SERIOUS CONCERN |

Mae pob diwrnod ysgol yn cyfrif. Mae presenoldeb o dan 95% yn golygu colli amser dysgu gwerthfawr, gan ei gwneud yn anodd i ddisgyblion gyflawni eu potensial llawn.

**Every school day matters. Attendance below 95% means valuable learning time is lost, making it harder for pupils to achieve their full potential.**

# Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau Ysgol 2026-2027

| **Cyfnod** | **Dyddiad Cychwyn** | **Dyddiadau** | **Dyddiad Gorffen** |
|---|---|---|---|
| Hydref 2026 | Dydd Mercher 2 Medi | Dydd Llun 26 Hydref – Dydd Gwener 30 Hydref | Dydd Gwener 18 Rhagfyr |
| Gwanwyn 2027 | Dydd Llun 4 Ionawr | Dydd Llun 8 Chwefror – Dydd Gwener 12 Chwefror | Dydd Gwener 19 Mawrth |
| Haf 2027 | Dydd Llun 5 Ebrill | Dydd Llun 31 Mai – Dydd Gwener 4 Mehefin | Dydd Mawrth 20 Gorffennaf |

| **Dosbarth / Class** | **Sesiwn y Bore / Morning Session** | **Cinio / Lunch** | **Sesiwn y Prynhawn / Afternoon Session** |
|---|---|---|---|
| **Meithrin Rhan-Amser Bore / Part-Time Morning Nursery** | 08:50 – 11:20 | – | – |
| **Meithrin Rhan-Amser Prynhawn / Part-Time Afternoon Nursery** | – | – | 12:20 – 14:50 |
| **Meithrin a Derbyn / Nursery & Reception** | 08:50 – 11:20 | 11:20 – 12:20 | 12:20 – 14:50 |
| **Blwyddyn 1 a 2 / Years 1 & 2** | 08:50 – 11:30 | 11:30 – 12:30 | 12:30 – 14:50 |
| **Blwyddyn 3 a 4 / Years 3 & 4** | 08:50 – 12:00 | 12:00 – 13:00 | 13:00 – 15:05 |
| **Blwyddyn 5 a 6 / Years 5 & 6** | 08:50 – 12:30 | 12:30 – 13:20 | 13:20 – 15:05 |

# Datganiad o Wariant

Mae gan Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn gyllideb ddirprwyedig a ddyrannwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Pennir y gyllideb hon drwy fformiwla Ariannu Teg yr Awdurdod Lleol, sy'n cael ei chymhwyso'n gyson ar draws pob ysgol er mwyn sicrhau tegwch ac ecwiti ledled y sir. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, dyraniad Ariannu Teg yr ysgol yw **£1,263,031**, yn seiliedig ar **257 o ddisgyblion**. Mae hyn yn cynnwys cyllid craidd disgyblion, dyraniadau adeiladau a chyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
1
Yn ogystal â'r gyllideb ddirprwyedig, mae'r ysgol yn derbyn cyllid grant i gefnogi blaenoriaethau a mentrau penodol. Yn ystod 2025/26 derbyniodd yr ysgol **£133,526.49** drwy Grant Addysg Awdurdod Lleol (GAALl) Safonau Ysgolion, **£6,439.00** drwy Grant GAALl Cyflawni a Sicrhau Ansawdd y System ADY, **£3,404.00** drwy Grant GAALl Diwygio'r Cwricwlwm a **£14,950.00** drwy'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GDDBC).

Mae'r Corff Llywodraethu yn parhau i fonitro gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau bod yr holl gyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi safonau uchel o addysgu a dysgu, gwella deilliannau disgyblion a diwallu anghenion pob dysgwr.

**PERFFORMIAD ARIANNOL 2025/26**
**Ysgol Parc y Tywyn**

| Enw'r Grant/Grant Name | | Dyraniad 2025/26 Allocation | £ |
|---|---|---|---|
| Grant Addysg Awdurdod Lleol (GAALl) – Safonau Ysgolion | Local Authority Education Grant (LAEG) – School Standards | 2025/26 | 133,526.49 |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol (GAALl) – Cyflawni a Sicrhau Ansawdd y System ADY | Local Authority Education Grant (LAEG) – ALN Quality and Delivery | 2025/26 | 6,439.00 |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol (GAALl) – Diwygio'r Cwricwlwm | Local Authority Education Grant (LAEG) – Curriculum Reform | 2025/26 | 3,404.00 |
| Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GDDBC) | Early Years Pupil Development Grant (EYPDG) | 2025/26 | 14,950.00 |

# Gweithgareddau, Digwyddiadau a Gwobrau

Bu'r plant yn dathlu Diwrnod Owain Glyndwr.

Dathlwyd Diwrnod Rhyngwldol Heddwch y Byd a Diwnrnod Y Ddaear.

Gwisgodd y plant fel Mor Ladron ar Ddiwrnod Dathlu T Llew Jones.

Dathlwyd Diwrnod Shwmae Su'mae.

Dangoswyd y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Y Santes Fair a chasglwyd cyfraniadau tuag at y banc bwyd.

Cafodd disgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 chwistrell ffliw.

Cododd y disgyblion arian i Blant Mewn Angen.

Aeth blynyddoedd 4, 5 a 6 ar deithiau preswyl i  Llain, Caerdydd a Phentywyn.

Cystadlodd y plant yn Eisteddfod yr Urdd.







Aeth rhai blynyddoedd ar deithiau i:

- San FFagan
- Penclacwydd
- Canolfan y Mileniwn Caerdydd
- Pen y Fan
- Parc Gwledig Penbre






Aeth y Cyngor Ysgol i dalu teyrnged ar Sul y Cofio.

Gwnaeth disgyblion blynyddoedd 2-6 fenthyg llyfrau o Lyfrgell Porth Tywyn.

Gwnaeth y plant weithgareddau wythnos gwrth fwlio.

Bu plant yn canu i'r Grwp Ffrindiau yng Nghapel Jerwsalem.

Cynhaliwyd ffair, sioeau a  gwasanaethau Nadolig,

Dathlwyd Dydd Miwsig Cymru.

Dathlwyd Diwnrod y Llyfr.

Cafodd blwyddyn 2 wersi Kerbcraft.

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi



# Gweithgareddau, Digwyddiadau a Gwobrau Chwaraeon



Mynychodd pedwar disgybl o Flwyddyn 6 gwrs hyfforddi ar gyfer Llysgenhadon Ifanc Efydd a drefnwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r cwrs yn eu hysbrydoli i fod yn fodelau rôl ac yn arweinwyr trwy chwaraeon fel y gallant ddylanwadu ar eraill i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol..



Cafodd blynyddoedd 3 – 6 sesiynau criced.

Daeth y Scarlets i gynnal sesiynau rygbi.

Datblygwyd sgiliau rygbi bl 4, 5 a 6 yng Ngŵyl y Scarlets.

Cystadlodd Merched blynyddoedd 5 a 6 gystadleuaeth rygbi tag gyda'r Scarlets.









Buodd y tim cymysg yn cystadlu mewn twrnamaint pêl-droed 5 bob ochr.

Cystadlodd y timau merched a chymysg yn nhwrnameintiau pêl-rwyd a phêl-droed yr Urdd.

Mynychodd blwyddyn 1 a 2 ŵyl Llythrennedd a Ffitrwydd Actif Sir Gar yn Ysgol Y Strade.

Mynychodd blynyddoedd 3 a 4 ŵyl Decathlon Actif Sir Gar.

Cafodd tîm criced cymysg blynyddoedd 5 a 6 lwyddiant.

Cafodd blynyddoedd 3 a 5 wersi nofio.

Cafodd blynyddoedd 3, 4 a 5 sesiynau pel-droed.

Cafodd blwyddyn 6 hyfforddiant beicio.

Mynychodd blwyddyn 5 gwyl seiclo/triathlon Cymru.



Yn ystod ein pythefnos eco/iach, daeth nifer o ymwelwyr i'r ysgol i gynnal sesiynau , gan gynnwys:

- Jujitsu gyda Satori Jujitsu

Cystadlodd blynyddoedd 3 a 4 yn nhwrnamaint criced yr Urdd.

Cynhaliwyd ein mabolgampau ysgol.

# Llwyddiannau a Digwyddiadau

**Cysylltiadau Cymunedol :**

- Co-op Porth Tywyn (Masnach Deg)
- Cymreictod yn y Gymuned – Siarter Iaith
- 'Burns by your Side'
- Eglwys Santes Fair
- Capel Jerwsalem
- Llyfrgell Porth Tywyn

**Teithiau Preswyl:**

- Llain
- Caerdydd
- Pentywyn



**Perfformiadau:**

- Bore Coffi Dydd Gwyl Dewi
- Eisteddfod yr Urdd
- Eisteddfod Penbre a Phorth Tywyn
- Gwasanaeth Cynhaeaf – Santes Fair
- Gwasanaeth Nadolig/Canu i'r Grwp Ffrindiau – Capel Jerwsalem

**Digwyddiadau Chwaraeon:**

- Twrnamaint pêl-droed
- Twrnament rygbi
- Gwyl Hoci
- Gwyl Decathlon
- Sesiynau Criced
- Sgiliau Rygbi gyda'r Scarlets
- Cystadlaethau Pel-rwyd
- Cystadlaethau Criced
- Bowlio



**Clybiau ar ôl Ysgol:**

- Clwb Garddio
- Clwb Digidol
- Clwb Celf a Chrefft
- Clwb Côr
- Clwb Chwaraeon
- Clwb yr Urdd

**Tripiau:**

- Parc y Scarlets
- Penyfan
- Penclacwydd
- Sain Ffagan